Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Y Pwyllgor Busnes
Dros ebost

8 Tachwedd 2022

Annwyl Bwyllgor Busnes,

Diolch am y cyfle i rannu barn y Comisiwn ar nifer y Comisiynwyr sydd eu hangen o ganlyniad i ddiwygio’r Senedd.

Mae'r Comisiwn yn nodi'r argymhelliad a ganlyn (Argymhelliad 6) a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd:

*“Rydym yn argymell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai’r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy na phedwar Aelod o Gomisiwn y Senedd pe bai am wneud hynny. Yna dylai’r ystyriaeth lywio’r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau.”*

Gwnaethom ystyried yr argymhelliad hwn yn ystod ein cyfarfod ar 7 Tachwedd. Gwnaethom nodi na ragwelir y bydd diwygio’r Senedd yn newid swyddogaethau statudol Comisiwn y Senedd (Adran 27(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru). O’r herwydd, nid ydym wedi’n hargyhoeddi bod angen capasiti ychwanegol er mwyn i’r Comisiwn allu cyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol ar hyn o bryd.

Wrth i waith y Senedd barhau i esblygu mewn blynyddoedd i ddod, efallai y bydd themâu sy'n dod i'r amlwg a fydd yn gofyn am sylw'r Comisiwn ac efallai y bydd angen ailedrych ar y mater o gapasiti. Pe bai mwy o angen yn dod i’r amlwg, ni fyddem yn rhagweld y byddai hynny y tu hwnt i un aelod ychwanegol, i wneud Comisiwn o chwech, gan gynnwys y Llywydd. Gan nodi bod nifer y Comisiynwyr wedi’u pennu mewn statud (Adran 27(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru), efallai y byddai’n fuddiol rhoi’r hyblygrwydd i’r Senedd drwy ei Rheolau Sefydlog i benderfynu ar y nifer priodol o Gomisiynwyr. Efallai y bydd y Pwyllgor Busnes am ystyried hyn fel rhan o'i ystyriaeth i ddeiliaid swyddi eraill y mae eu niferoedd wedi'u pennu ar hyn o bryd drwy statud.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Mae adran 27(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y mae eisoes yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd drwy nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn gynnwys un aelod o bob grŵp gwleidyddol (yn ogystal â'r Llywydd) cyn belled ag sy'n "rhesymol ymarferol". Roedd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r Senedd i ethol dau Gomisiynydd o'r un grŵp gwleidyddol (h.y. y grŵp mwyaf) ar ddechrau'r Chweched Senedd er mwyn bodloni'r meini prawf sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael pedwar Comisiynydd (yn ogystal â'r Llywydd) oherwydd dim ond tri grŵp gwleidyddol sy'n bodoli. Fel y cyfryw, nid ydym yn rhagweld y bydd angen newid y ddarpariaeth hon.

Cofion gorau,

**Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English